Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llangoed

**Llangoed**
**Biwmares**
**LL58 8SA**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llangoed

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Llangoed |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 91 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 61 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 12 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 16.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 39.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 8.79% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 02/09/2019 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 12/01/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 05/06/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae’r term ‘anghenion addysgol arbennig’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Llangoed yn ysgol hapus a chynhwysol sy'n blaenoriaethu lles disgyblion a staff yn dda. Mae naws gartrefol yr ysgol yn cefnogi bron bob disgybl i ymddwyn yn dda ac i ddangos parch a gofal am eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn falch iawn o'u hysgol ac yn ymroi'n llawn i brofiadau dysgu a chwarae. Mae ganddynt ddiddordeb yn eu dysgu, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Mae arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer darparu addysg gyflawn wedi ei seilio ar gynnal lles y disgyblion a chydweithio tuag at y dyfodol. Mae'r pennaeth wedi creu amgylchedd gofalgar a chefnogol sy'n sicrhau ymdeimlad cryf o waith tîm. Mae hyn yn sicrhau bod pawb yn deall blaenoriaethau'r ysgol ac yn gweithio gyda'i gilydd yn gefnogol. Er hyn, nid yw prosesau hunanwerthuso'r ysgol yn ddigon miniog i ddylanwadu'n ddigon effeithiol ar y dysgu a'r addysgu.

Mae gan y staff berthynas waith effeithiol â'r disgyblion ac maent yn cefnogi eu medrau Cymraeg yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae'r staff yn holi ac yn cefnogi'r disgyblion i ddwysáu eu dealltwriaeth a datblygu eu medrau yn llwyddiannus. Er hyn, mae athrawon yn dueddol i or-gyfarwyddo'r dysgu sy'n llesteirio gallu disgyblion i arwain eu dysgu eu hunain. Yn ogystal, nid yw'r profiadau dysgu yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn ddigon cyson.

## Argymhellion

A1 Ymateb i'r pryderon iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â safle'r ysgol

A2 Mireinio prosesau hunanwerthuso er mwyn sicrhau gwelliannau yn y dysgu ac addysgu

A3 Sicrhau cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A4 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu a datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau’r ysgol gyda medrau sy’n debyg i’r hyn a ddisgwylir am eu cam datblygiad, heblaw am fedrau llafar Cymraeg sy’n is na’r hyn a ddisgwylir. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a’r rhai sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cadarn.

Ar draws yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau gwrando a siarad yn effeithiol. Mae’r disgyblion ieuengaf yn dilyn cyfarwyddiadau staff yn bwrpasol gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa yn eu chwarae a’u dysgu. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf yn gwrando ar ei gilydd yn ofalus wrth gydweithio ac yn sgwrsio’n naturiol ac yn hyderus wrth drafod eu profiadau dysgu, er enghraifft wrth esbonio lleoliadau cyfarwydd ar fap o Gymru. Wrth i ddisgyblion symud trwy’r ysgol, mae’r mwyafrif yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol yn y ddwy iaith. Erbyn Blwyddyn 6, mae mwyafrif y disgyblion yn cyfathrebu’n effeithiol mewn sefyllfaoedd ffurfiol, er enghraifft wrth ddisgrifio rhinweddau gwrachod ddoe a heddiw. Er hyn, mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn tueddu i droi’r i’r Saesneg wrth gyfathrebu â’i gilydd.

Mae medrau darllen rhan fwyaf o’r disgyblion yn datblygu’n dda. Mae rhan fwyaf o’r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau darllen cynnar yn gadarn gan ddechrau adnabod ffurf a sain llythrennau’n gynyddol hyderus. Maent yn defnyddio dulliau ffoneg yn briodol i adnabod geiriau syml a chyfarwydd yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn aeddfed a rhwydd. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau aml-gam yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddilyn cyfarwyddiadau syml i greu bisgedi seren. Wrth i ddisgyblion symud trwy’r ysgol, maent yn adeiladu’n gadarn ar eu medrau darllen ac yn datblygu ystod dda o dechnegau i ddod yn ddarllenwyr rhugl ac effeithiol. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ystod o destunau priodol yn y ddwy iaith ac yn cymhwyso eu medrau darllen gan gynnwys testunau digidol yn effeithiol, er enghraifft wrth ddarllen a deall gwybodaeth am y planedau i greu ffeil o ffeithiau.

Mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda. Mae llawer o’r disgyblion ieuengaf yn dechrau ymarfer eu medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus mewn gwahanol gyfryngau a thrwy ddechrau arbrofi a chreu marciau a geiriau syml gyda sialc a phaent. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n briodol at ddibenion gwahanol gan ddefnyddio brawddegau ac ansoddeiriau syml, er enghraifft wrth greu llyfrau igam-ogam am y byd a thu hwnt. Erbyn Blwyddyn 3 a 4, mae’r rhan fwyaf yn datblygu’r medrau hyn ymhellach trwy ddewis a dethol geiriau pwrpasol i greu effaith, er enghraifft wrth ysgrifennu dyddiadur gofodwr ar ei siwrne i’r planedau. Ar frig yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu gyda lefel uwch o gywirdeb yn y Saesneg, gan ysgrifennu straeon estynedig diddorol; er enghraifft, stori ffuglen wyddonol am estronwr o blaned arall. Mae medrau ysgrifennu Cymraeg yn datblygu’n briodol, er enghraifft wrth ysgrifennu dyddiadur Barti Ddu a’i helyntion ar y môr.

O oedran cynnar, mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn caffael medrau sylfaenol yn gadarn, er enghraifft wrth adio a thynnu rhifau at 20 ac adnabod y rhif lleiaf neu'r mwyaf o fewn cyfres. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth drin data, er enghraifft wrth greu graff bloc i ddangos faint o ddisgyblion sy'n hoffi mêl. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, mae ganddynt ddealltwriaeth addas o nodweddion mathemategol, gan gynnwys gweithdrefnau adio, tynnu, lluosi a rhannu. Maent yn casglu, cyflwyno a dehongli gwybodaeth yn ddeallus ar ffurf graffiau llinell, tablau, a thaenlenni. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw'r disgyblion yn cymhwyso nac ymestyn eu medrau rhifedd yn ddigon bwriadus ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n arbennig wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Maent yn cyfuno eu medrau a'u dealltwriaeth o wahanol apiau a rhaglenni cyfrifiadurol yn gynyddol hyderus i gyfoethogi eu gwaith. Mae medrau'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n  dda, er enghraifft wrth ddefnyddio ap i recordio troslais yn esbonio priodweddau siapiau. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn gallu defnyddio rhaglen animeiddio yn hyderus i greu cyflwyniad am newidiadau gwedd y lleuad dros fis. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd creadigol o ystod o raglenni digidol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ddefnyddio sgrin werdd I greu a chyflwyno fideo i ailadrodd rhan o stori Barti Ddu. Mae hyn hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu yn dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn ymarfer eu medrau'n gyson, er enghraifft wrth ddefnyddio pontydd cydbwyso yn hyderus. Mae'r disgyblion yng nghanol ac ar frig yr ysgol yn datblygu medrau corfforol pwrpasol. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o wersi sydd yn hybu eu hiechyd a'u lles, fel sesiynau ioga a gwersi nofio.

Ar draws yr ysgol, mae medrau creadigol llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn, gyda phrofiadau gwerthfawr iddynt greu gwaith celf a cherddoriaeth, yn ogystal â pherfformio i wahanol gynulleidfaoedd, er enghraifft wrth i'r disgyblion ddiddanu preswylwyr y cartref henoed lleol.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau mynychu'r ysgol ac yn teimlo'n hapus o fewn ei naws gynhwysol a gofalgar. Maent yn gwrtais, yn gyfeillgar ac yn dangos parch a gofal at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae mwyafrif y disgyblion yn sgwrsio'n aeddfed ac yn mwynhau rhannu eu profiadau ag oedolion. Mae bron bob disgybl yn gwybod at bwy i droi os oes unrhyw beth yn eu poeni ac maent yn hyderus bod staff yn ymateb yn briodol i unrhyw bryder. Mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n ddiogel pan fyddant ar-lein trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau TGCh cyson; er enghraifft, maent yn gwybod i beidio â rhannu eu cyfrineiriau.

Mae ethos gofalgar yr ysgol yn cyfrannu'n dda at gefnogi lles disgyblion ac mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth drafod pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Maent yn ymfalchïo yn y cyfleoedd maent yn eu cael i wella eu ffitrwydd o fewn y gwersi addysg gorfforol a gweithgareddau cadw'n heini yn y goedwig. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau corfforol a lles y disgyblion.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda yn ystod gwersi ac wrth chwarae gemau a chymdeithasu yn ystod amser egwyl. Maent yn gwrando'n astud ar oedolion ac yn dangos agweddau cadarn at ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi ac yn parchu cyfraniadau eu cyfoedion, gan ymateb yn aeddfed a synhwyrol mewn trafodaethau grŵp, er enghraifft wrth greu animeiddiad i ailadrodd stori Cantre'r Gwaelod. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda ac yn ymgysylltu'n gydwybodol mewn gwersi. Maent yn ymateb yn dda i holi ac adborth llafar ac ysgrifenedig athrawon, gan ddechrau datblygu dealltwriaeth addas o sut i wella eu gwaith.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynnig syniadau i'w cynnwys yn eu themâu, ac yn cyd-gynllunio gweithgareddau dysgu pwrpasol gyda'u hathrawon. Maent yn gwerthfawrogi bod athrawon yn gwrando ar eu barn yn y dosbarthiadau ac yn cynnwys eu syniadau wrth gynllunio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos diddordeb a mwynhad wrth ddilyn gwahanol drywyddion dysgu.

Trwy eu hymwybyddiaeth o'r gwerthoedd sy'n cael eu hyrwyddo gan yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd dinasyddiaeth foesol a Chymreig. Mae bron bob disgybl yn deall pwysigrwydd cefnogi pobl eraill mewn cymdeithas ac maent yn awyddus i gynrychioli'r ysgol mewn gweithgareddau cymunedol. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at yr ymdeimlad o berthyn sydd gan y disgyblion tuag at yr ysgol a'r gymuned leol.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn cymryd eu rôl o ddifri ac yn dechrau cyfrannu'n werthfawr at syniadau i wella'r ysgol, er enghraifft wrth bwyso a mesur pa offer newydd i'w gyflwyno yn ystod amseroedd chwarae i sicrhau tegwch i bawb. Mae hyn yn cyfrannu'n werthfawr at ymdeimlad y disgyblion o bwysigrwydd ac effaith eu syniadau at fywyd yr ysgol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan staff berthynas waith arbennig â'r disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch cefnogol a chynhwysol yn llwyddiannus. Maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn grefftus sy'n cael effaith gadarnhaol ar agweddau disgyblion at eu dysgu. Mae'r athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n llwyddiannus i gefnogi'r disgyblion. Maent yn cyfathrebu â'r disgyblion gan ddefnyddio Cymraeg cywir, sydd yn ei dro yn cyfoethogi iaith y disgyblion yn effeithiol.

Ar y cyfan, mae'r athrawon yn dechrau addasu eu cynllunio yn briodol i ystyried y pedwar diben a'r meysydd dysgu a phrofiad yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru. Mae egwyddorion ehangach y cwricwlwm yn datblygu'n briodol wrth feithrin disgyblion i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, mentrus ac i ddyfalbarhau yn eu gweithgareddau. Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau darllen, llafar, TGCh ac ysgrifennu disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw i ddisgyblion hynaf yr ysgol ddisgrifio adweithiau cemegol er mwyn creu diod hudol fel rhan o'u gwaith ar wrachod Llanddona. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn llesteirio gallu'r disgyblion i ddefnyddio eu medrau mathemateg at bwrpasau gwahanol.

Mae athrawon yn cynnal rhediad da i'w gwersi gydag ystod o weithgareddau ysgogol. Maent yn defnyddio technegau holi amrywiol yn effeithiol er mwyn gwirio

dealltwriaeth y disgyblion. Maent yn gosod amcanion dysgu clir ac yn defnyddio ystod o adnoddau pwrpasol i ennyn diddordeb disgyblion, er enghraifft wrth ddarparu ystod o wastraff ailgylchu i ddisgyblion greu llong gofod. Mae athrawon a chymorthyddion yn cynnig adborth a chymorth adeiladol i'r disgyblion er mwyn iddynt ddeall sut i wella eu gwaith, yn enwedig ar lafar. Mae'r athrawon yn frwdfrydig ac yn cynnal diddordeb disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymgolli'n llwyr yn eu dysgu ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn dechrau rhoi cyfleoedd addas i ddisgyblion ddylanwadu ar yr hyn maent yn ei ddysgu, er enghraifft wrth gynnwys mewnbwn disgyblion wrth gynllunio tasgau diddorol yn ymwneud â'r gofod. Fodd bynnag, mae athrawon yn tueddu i or-gyfarwyddo'r dysgu sy'n llesteirio gallu disgyblion i arwain eu dysgu eu hunain a datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Tu mewn a thu allan, mae'r ardaloedd dysgu atyniadol yn cael eu defnyddio'n fwriadus i annog disgyblion i weithio'n gynhyrchiol a chyfoethogi'u profiad. Llwydda'r staff i wneud y dosbarthiadau'n lleoedd ysgogol a difyr. Mae arddangosfeydd rhyngweithiol a lliwgar y dosbarthiadau yn cefnogi'r dysgu'n bwrpasol. Er enghraifft, wrth gyflwyno 'wal weithio', mae disgyblion yn gallu dysgu oddi wrth gamgymeriadau blaenorol ei gilydd i wella safon eu gwaith.

Mae ethos Cymreig cryf yr ysgol, ynghyd â'r ddarpariaeth, yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd pwrpasol o'r Gymraeg. O ganlyniad, maent yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys. Mae staff yn cydweithio'n frwdfrydig ac yn angerddol i drochi'r disgyblion yn yr iaith Gymraeg. Maent yn modelu iaith yn llwyddiannus, yn dangos brwdfrydedd at yr iaith ac yn arddel disgwyliadau uchel ar gyfer safonau llafar disgyblion. Mae hyn yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd da wrth gaffael yr iaith a'i defnyddio mewn sefyllfaoedd ffurfiol.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd yn seiliedig ar egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru yn briodol. Mae hyn yn gosod sail i gymuned ofalgar lle gall bob disgybl ddatblygu a ffynnu. Mae gan y pennaeth a'r athrawon ddiddordeb ac adnabyddiaeth drylwyr o anghenion bob disgybl. Maent yn gosod pwyslais cryf ar gynnig darpariaeth sy'n diwallu anghenion unigol y disgyblion er mwyn eu datblygu'n ddysgwyr cyflawn.

Mae'r staff yn blaenoriaethu lles disgyblion ac yn barod i drafod unrhyw bryder sydd ganddynt. O ganlyniad, mae gan bron bob disgybl ffydd y gallant ymddiried yn staff i ddatrys unrhyw bryder yn gyflym. Mae gan yr ysgol berthynas gydweithredol dda â'r rheini ac mae hwythau'n gwerthfawrogi'r gofal ac arweiniad a gaiff eu plant gan y staff. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at ymdeimlad cartrefol sy'n bodoli yn yr ysgol.

Mae gan arweinwyr systemau effeithiol I fonitro ac olrhain cynnydd disgyblion. Trwy hyn, mae gan staff adnabyddiaeth dda o anghenion lles a dysgu'r disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys proffiliau un tudalen defnyddiol a chynlluniau datblygu unigol. Maent yn darparu amrywiaeth bwrpasol o raglenni cymorth sy'n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd, yn ogystal â chefnogi eu lles. Er enghraifft, mae staff yn darparu rhaglen gymorth effeithiol i ddisgyblion gyflymu eu hamser cyfrifo symiau lluosi. Mae'r ysgol yn

cydweithio mewn partneriaeth â rhieni ac asiantaethau allanol yn effeithiol, er enghraifft gyda'r tîm awtistiaeth er mwyn cefnogi'r ddarpariaeth i'r disgyblion. O ganlyniad i gynllunio'r ddarpariaeth yn llwyddiannus, mae disgyblion yn derbyn cefnogaeth sy'n diwallu eu hanghenion yn fuddiol.

Mae'r staff yn meithrin a datblygu dealltwriaeth foesol ac ysbrydol disgyblion yn effeithiol, er enghraifft wrth ystyried hawliau dynol a hawliau merched yn ystod Cwpan y Byd yn Qatar. Mae'r ysgol yn datblygu cyfleoedd priodol i ddisgyblion rannu syniadau i wella agweddau o'r ysgol, er enghraifft wrth wella trefniadau amseroedd chwarae. Mae aelodau'r cynghorau ysgol yn trefnu gweithgareddau pwrpasol i gefnogi elusennau lleol, er enghraifft wrth gyfrannu eitemau i'r banc bwyd lleol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at osod seiliau cadarn i'r disgyblion fagu agweddau moesol a fyddai'n arwain at ddatblygu'n ddinasyddion cydwybodol i'r dyfodol. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i'r cynghorau ddylanwadu'n bwrpasol ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Wrth hyrwyddo datblygiad diwylliannol disgyblion, mae athrawon yn darparu amrywiaeth o brofiadau gwerthfawr a chyfleoedd pwrpasol iddynt ddathlu eu treftadaeth a'u diwylliant Cymreig. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn dathliadau Dydd Gŵyl Dewi ym Mhorthaethwy ac yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion mentrus a hyderus sy'n dechrau ymfalchïo yn eu Cymreictod.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer hyrwyddo presenoldeb cyson yn gadarn. Mae'r pennaeth yn monitro presenoldeb yn drylwyr ac yn cydweithio'n effeithiol â rhieni ac asiantaethau allanol er mwyn cyflawni hyn.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus am arferion bwyta'n iach ac yn deall pwysigrwydd diet cytbwys. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn briodol ac nid ydynt yn destun pryder. Fodd bynnag, daeth arolygwyr a mater yn ymwneud â iechyd a diogelwch y safle i sylw arweinwyr yr ysgol yn ystod yr arolygiad.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth wedi creu amgylchedd gofalgar a chynhwysol sy'n sicrhau ymdeimlad cryf o waith tîm ymhlith y staff ac ymrwymiad cynnes i les disgyblion. Mae'r amgylchedd gofalgar hwn yn cyfoethogi gweledigaeth yr ysgol i 'Agor y drws i'r dyfodol', yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos lefelau uchel o ymgysylltiad ac yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae'r pennaeth yn annog ymddygiad a gwerthoedd buddiol, sy'n cefnogi disgyblion yn llwyddiannus yn eu bywyd a'u gwaith o fewn a thu allan i'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r staff yn adnabod cymuned yr ysgol yn dda ac yn cydweithio'n llwyddiannus i ddatblygu tîm effeithiol o athrawon a chymorthyddion. Caiff hyn ei adlewyrchu'n llwyddiannus gan agweddau cadarnhaol y rhan fwyaf o'r disgyblion at fywyd a gwaith yr ysgol. Mae bron bob un yn ymddwyn yn dda ac yn arddangos parch ac aeddfedrwydd wrth ryngweithio â chyfoedion, staff ac ymwelwyr.

Mae arweinwyr yr ysgol yn meithrin perthynas gynhyrchiol â theuluoedd a chymuned ehangach yr ysgol i wella cyfleoedd pob disgybl mewn bywyd. Er enghraifft,

gwahoddir nifer o asiantaethau cynorthwyo i'r ffair gymunedol i godi ymwybyddiaeth teuluoedd o'r gwahanol gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Mae gan yr ysgol linellau cyfathrebu effeithiol â theuluoedd er mwyn iddynt allu codi unrhyw faterion a all effeithio ar ddysgu a lles eu plentyn.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad addas ar waith i staff. Mae ganddynt dargedau gwella pwrpasol sydd wedi'u seilio ar y blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol ac sydd yn bersonol i'w anghenion datblygiadol unigol. Mae'r staff yn cael cyfleoedd cyson i fynychu hyfforddiant sy'n ateb gofynion eu datblygiad proffesiynol. Maent yn gweithio'n agos â staff ysgolion lleol i rannu arbenigedd a syniadau, er enghraifft wrth gydweithio'n effeithiol i rannu apiau a rhaglenni cyfrifiadurol er mwyn codi safonau a datblygu medrau TGCh y disgyblion. Yn ddiweddar, mae staff wedi mynychu hyfforddiant pwrpasol sydd wedi dyfnhau eu dealltwriaeth a datblygu eu medrau cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus.

Mae'r pennaeth wedi datblygu gweithdrefnau priodol ar gyfer monitro ac arfarnu ansawdd gwaith yr ysgol sy'n arwain at welliannau bwriadus. Er enghraifft, mae craffu ar holiaduron disgyblion wedi arwain at wella'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol. O ganlyniad, mae hyn wedi cryfhau ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau monitro yn ddigon miniog ac nid ydynt bob amser yn canolbwyntio'n ddigon craff ar arfarnu'r effaith y mae camau gweithredu'r ysgol yn ei chael ar wella addysgu a dysgu. O ganlyniad, ar adegau, mae prosesau hunanwerthuso'n methu cryfderau o fewn yr ysgol a meysydd i'w gwella, fel yr angen i gynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n gydwybodol. Maent yn manteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, er enghraifft trwy annog disgyblion i yfed dŵr a bwyta ffrwyth yn ystod y dydd. Wrth iddynt dderbyn adroddiadau tymhorol gan y pennaeth, mae ganddynt ddealltwriaeth gyson o drefniadau dyddiol yr ysgol, fel sut mae'r ysgol yn mynd i'r afael â disgyblion sydd â phresenoldeb isel. Er bod gan aelodau'r corff ddealltwriaeth addas o gryfderau'r ysgol, nid ydynt yn herio arweinwyr yn ddigonol i gaffael gwybodaeth am feysydd i'w gwella sy'n ymwneud â'r dysgu ac addysgu.

Mae gan yr ysgol gynllun gwariant synhwyrol sy'n sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau i ddiwallu anghenion disgyblion yn bwrpasol. Mae'r arweinwyr yn monitro'r gyllideb yn ofalus ac yn sicrhau gwariant synhwyrol i gyd-fynd ag anghenion pwysig. Maent yn gwneud defnydd da o grantiau gwahanol sydd wedi eu dyrannu i'r ysgol, er enghraifft wrth ddefnyddio'r grant datblygu disgyblion i ddarparu ymyraethau i ddisgyblion sydd angen cymorth pellach â'u dysgu.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/08/2023